# Addysg / Education

Pennaeth Addysg /
Head of Education – Garem Jackson

Gofynnwch am/Ask for: **Moderneiddio Addysg**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **Ysgol Llanaelhaearn**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

3 Mehefin 2020

**At**: Holl ymgynghorai yn gysylltiedig â'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion

Annwyl Randdeiliad,

***Par: Y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020.***

Ar ddydd Mawrth 19 Mai 2020, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd yn derfynol y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020 a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plenydd ar 1 Medi 2020. Yn unol â chyfansoddiad Cyngor Gwynedd, daeth penderfyniad y Cabinet yn weithredol ar 3 Mehefin 2020. Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol rhwng 5 Mawrth a 3 Ebrill 2020. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig ac o ganlyniad, cefnogodd y Cabinet yr argymhelliad i gadarnhau'r cynnig yn derfynol.

Datblygwyd y cynnig o ganlyniad i'r prif heriau oedd yn wynebu'r ysgol, sef:

- Niferoedd isel o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol – roedd wyth disgybl ar y gofrestr yng nghyfrifiad Medi 2019;
- Dosbarthiadau o faint bychain gyda thri disgybl mewn un dosbarth a pum disgybl yn yr ail ddosbarth;
- Rhagamcanion niferoedd ar gyfer y dyfodol yn dangos gostyngiad pellach dros y tair blynedd nesaf.

Wrth benderfynu ar y cynnig, bu i'r ffactorau canlynol gael eu hystyried gan y Cabinet yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018):

- Ansawdd a safonau mewn addysg
- Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion
- Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill
- Ffactorau cyffredinol eraill
- Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion
- Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig a'r asesiadau effaith cysylltiedig, sef
    - Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio
    - Yr effaith debygol ar y Gymuned
    - Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg
- Cydraddoldeb
- Yr Iaith Gymraeg
- Gofynion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015

Wrth wneud ei benderfyniad, yr oedd y Cabinet yn fodlon mai'r cynnig oedd yr opsiwn mwyaf priodol ar gyfer y sefyllfa yma gan na fyddai'r un o'r opsiynau eraill a adnabuwyd, gan gynnwys ffederaleiddio, yn dod i'r afael a'r prif heriau sydd yn wynebu'r ysgol. Roedd y Cabinet yn fodlon hefyd fod y cynnig yn arwain at gyfleoedd mwy cyson i blant y dalgylch, ac yn cyflawni dyheadau strategol y Cyngor sef:



Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru

- y byddai gweithredu’r cynnig yn arwain at well cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd yr ardal a’r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgol ble mae’r niferoedd a rhagamcanion yn fwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol;
- bod arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn mewn ysgol sydd â niferoedd yn caniatáu i Bennaeth gael tegwch i arwain a rheoli yn broffesiynol yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgol sydd yn ganolbwynt i weithgareddau cymunedol gan gyfoethogi profiadau a chyfleoedd i’r disgyblion, fel y sefyllfa bresennol;
- y byddai rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion yn lleihau’r amrediad mewn cost y disgybl i holl blant Gwynedd;
- amcangyfrifir y byddai gwireddu’r cynnig yn arbed rhwng £92,213 a £105,813 y flwyddyn mewn costau refeniw, a hynny wedi ystyried costau cludiant ychwanegol;
- parhad i’r sefyllfa bresennol, gyda disgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ble mae defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg yn gryf;
- y byddai’r disgyblion yn parhau i dderbyn eu haddysg mewn ysgol o fewn pellter rhesymol i’w cartrefi ac yn derbyn cludiant yn unol â pholisi'r Cyngor.

Mae’r adroddiad a gyflwynwyd i’r Cabinet ar 19 Mai 2020 (Adroddiad Cabinet 19 Mai 2020) yn ymhelaethu ar y cefndir, yr ymgynghori a’r broses statudol hyd yma, gan gynnwys yr ystyriaethau uchod. Mae’r adroddiad yma ynghyd a dogfennau eraill perthnasol ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Yn unol â’r penderfyniad uchod, bydd **Ysgol Llanaelhaearn yn cau ar 31 Awst 2020,** a bydd disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr, oni bai fod rhieni yn dewis gwneud cais i drosglwyddo i ysgol arall. Ysgol Bro Plenydd fydd yr ysgol ddalgylch ar gyfer dalgylch presennol Ysgol Llanaelhaearn i’r dyfodol.

Os ydych angen gwybodaeth bellach, croeso i chi gysylltu gyda ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru.

Yn gywir,



**Garem Jackson**
**Pennaeth Addysg**